# Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol

Cysylltu pobl â chymorth yn y gymuned

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgynghoriad cymunedol

# Helo


Mae eich iechyd a'ch lles yn bwysig. Nid yw bod yn iach ym mhob rhan o'ch bywyd yn digwydd ohono ei hun. Mae'n rhywbeth mae'n rhaid i chi weithio arno ac weithiau cael cymorth gydag ef.

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau eich bod chi'n cael y cymorth rydych chi ei angen pan fyddwch chi ei angen.

Mae llawer o gefnogaeth ar gael:

- **Cymorth clinigol gan** wasanaethau iechyd — meddygon teulu, nyrsys, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau gofal iechyd eraill.
- **Cymorth** llesiant yn eich cymuned leol — gweithgareddau, grwpiau i ymuno â nhw, cyngor, gwybodaeth a chymorth arall.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod sut i gael cymorth clinigol gan wasanaethau iechyd. Ond dydyn nhw ddim yn gwybod cymaint am gael cymorth yn y gymuned drwy bresgripsiynu cymdeithasol.



**Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ymwneud â'r canlynol:**

## cysylltu pobl â chymorth yn y gymuned a fydd yn eu helpu i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Mae hyn yn dweud wrthych chi am ein cynlluniau ar gyfer

## Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol.

Bydd gan y fframwaith ganllawiau, gwybodaeth, safonau a chyngor i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau, fel eu bod yn gwybod sut i gysylltu pobl â chymorth yn y gymuned.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl, fel nad ydyn ni'n gadael unrhyw beth allan.



# Pam mae presgripsiynu cymdeithasol yn bwysig?

## Presgripsiynu cymdeithasol:

- Helpu pobl i gymryd rheolaeth — dewis eu cefnogaeth.
- Helpu i atal pobl rhag cael eu hynysu — cysylltu ac adeiladu cyfeillgarwch.
- Helpu pobl i leihau pryder — gwella iechyd meddwl.
- Helpu pobl i gael cyngor a delio â materion — dyled, tai, unigrwydd a mwy.
- Helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd — mynediad tecach at wasanaethau.
- Helpu pobl i deimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned — ymdeimlad o berthyn a diwylliant.
- Helpu pobl i gael cymorth yn gyflym — gan atal materion rhag gwaethygu.
- Helpu i dynnu'r baich oddi ar wasanaethau gofal iechyd — lleihau'r rhestr aros.

## Ynglŷn â'r fframwaith hwn

Rydym ni wedi gweithio gyda phobl i ddatblygu model Cymreig o bresgripsiynu cymdeithasol a chanfod beth yw'r themâu allweddol ar gyfer y fframwaith.



# Model Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol



- Person-ganolog
- Sector statudol
- Wedi'i dargedu
- Gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol
- Gofal Iechyd
- Trydydd sector
- Hunangyfeirio
- Cefnogaeth yn y gymuned

# Model Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn edrych ar y person cyfan ac yn eu rhoi wrth wraidd popeth.

**Gall pobl gysylltu mewn 5 ffordd.**

### Yr hunan-gyfeirio

**Enghraifft:** Mae rhywun yn sylweddoli bod angen rhywfaint o help arnyn nhw, maen nhw'n gwybod am y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, a sut i gysylltu.

### Yr atgyfeiriad gofal iechyd

**Enghraifft:** Mae rhywun yn ymweld â'u meddyg teulu gyda phryder. Mae'r meddyg teulu yn eu cyfeirio at y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol sy'n cynnig gweithgareddau iddyn nhw yn eu cymuned.

### Atgyfeiriad sector statudol (Gwasanaethau brys, gwasanaethau cymdeithasol ac ati)

**Enghraifft:** Yn ystod archwiliad diogelwch tân, mae'r gwasanaeth tân yn sylwi bod person wedi'i ynysu ac yn credu y byddai'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn ddefnyddiol.

### Atgyfeiriad trydydd sector (Sefydliadau, elusennau a grwpiau)

**Enghraifft:** Mae gwasanaeth iechyd meddwl yn cydnabod bod angen cymorth ar rywun gyda'i arian a'i fudd-daliadau felly mae'n eu cyfeirio at y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i gael help i gael gafael ar gymorth.

### Atgyfeiriad wedi'i dargedu

**Enghraifft:** Mae hyn ar gyfer pobl sydd ag angen neu gyflwr penodol ac y gallai cynnig presgripsiynu cymdeithasol iddynt helpu i atal pethau rhag gwaethygu. Er enghraifft, rhywun sydd â chyflwr iechyd penodol neu grŵp o fyfyrwyr a allai fod yn wynebu anawsterau ariannol.

Gallai gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol gael eu rhedeg gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, elusennau neu grwpiau gwirfoddol. Dylen nhw wneud y canlynol:

- **meithrin perthynas gadarnhaol, ymddiriedus** gyda phobl
- **cyfeirio a chysylltu pobl â** chymorth cymunedol
- **helpu pobl i ailgysylltu** â'u cymuned
- **helpu i ddatblygu ac adeiladu** ar gryfderau cymunedol
- **rhoi adborth** i bwy bynnag a wnaeth yr atgyfeiriad.



# Model Cymru gyfan ar gyfer rhagnodi cymdeithasol

Gall cymorth yn y gymuned fod **wyneb yn wyneb** neu **ar-lein**.

Gall fod yn **ffurfiol neu'n anffurfiol**.

Gall ddigwydd **dan do** mewn lleoedd fel canolfannau cymunedol, canolfannau iechyd neu glybiau chwaraeon.

Gall ddigwydd **yn yr awyr agored** mewn lleoedd fel parciau, caffis neu ar ddŵr agored.

Gall gynnwys **gweithgareddau** sy'n gwella eich lles corfforol a meddyliol fel:

- grwpiau cyfeillio
- cyngor ariannol
- grwpiau ffordd iach o fyw
- clybiau ieuenctid
- grwpiau pensiynwyr
- grwpiau drama
- corau lleol
- grwpiau rhedeg neu grwpiau chwaraeon
- gerddi cymunedol neu brosiectau bwyd cymunedol

Gall gynnwys **gweithgareddau** llesiant i ddiwallu anghenion penodol fel:

- dawns i helpu pobl hŷn i gadw eu cydbwysedd a lleihau cwympiadau
- grwpiau celf i gefnogi eu hiechyd meddwl.

Gall gynnwys **cefnogaeth** gan gymheiriaid. Mae hyn yn helpu pobl i weld nad nhw yw'r unig rai sy'n profi problemau emosiynol anodd fel galar neu unigrwydd.

**Ydych chi'n meddwl bod y model hwn yn hawdd ei ddeall?**

**Ydw** ○ **Nac ydw** ○ **Ddim yn gwybod** ○

**A oes unrhyw beth ar goll?**



# Siarad am iaith a sut rydyn ni'n disgrifio pethau

### Rydym ni am wirio ai'r teitl 'presgripsiynu cymdeithasol' yw'r un cywir.

Pan fydd rhai pobl yn clywed 'presgripsiynu', maen nhw'n meddwl am bresgripsiwn meddyg. Dydyn ni ddim am i bobl feddwl mai dim ond os yw wedi'i 'bresgripsiynu' yn feddygol iddyn nhw y gallant gael cymorth yn y gymuned.

**Beth ydych chi'n ei feddwl am y term 'presgripsiynu cymdeithasol'?**

### Rydym ni am sicrhau bod pawb yn deall yr hyn rydyn ni'n ei olygu gyda presgripsiynu cymdeithasol.

Mae'n bwysig bod pobl yn deall beth rydym ni'n ei olygu fel y gallant gael cymorth.

**Sut allwn ni helpu pobl i ddeall Presgripsiynu Cymdeithasol?**

### Rydym ni am i bawb ddeall llwybrau atgyfeirio.

Gall fod yn anodd i bobl ddeall pa gymorth sydd ar gael a beth yw'r opsiynau gorau. Rhaid i gysylltu â chymorth yn y gymuned fod yn hawdd ei wneud.

**Sut y gallwn ni helpu gweithwyr proffesiynol i gyfeirio pobl at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?**

**Sut y gallwn ni helpu pobl i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol a chysylltu ag ef?**

**Sut y gallwn ni helpu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i dargedu grwpiau sydd angen cymorth?**

# Siarad am godi ymwybyddiaeth o gefnogaeth

## Rydym ni am i'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol wybod am gymorth yn y gymuned.

Mae angen hysbysebu cymorth a gweithgareddau fel bod pobl yn gwybod beth sydd ar gael. Hefyd, pan fydd sefydliadau, elusennau neu grwpiau gwirfoddol yn gwybod am ei gilydd, gallant gydweithio'n well.

**Sut allwn ni sicrhau bod hyn yn digwydd?**

## Rydym ni am i bobl gael y cymorth cywir ar yr adeg iawn.

Weithiau mae angen gofal arbenigol ar bobl. Gall sefydliadau, elusennau neu grwpiau gwirfoddol gefnogi pobl ochr yn ochr â chymorth arbenigol, ond ni allant byth ei ddisodli.

**Sut allwn ni sicrhau bod pobl yn cael yr help maen nhw ei angen?**



# Siarad am arweinyddiaeth a sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn addas i'r diben

## Rydym ni am gael arweiniad cryf a chlir.

Mae arweinyddiaeth dda yn helpu pobl i deimlo'n hyderus y bydd y cymorth yn diwallu eu hanghenion. Bydd gan y fframwaith hwn ganllawiau, fel bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

**Sut allwn ni gefnogi arweinyddiaeth a sicrhau bod y gwasanaeth o ansawdd uchel?**



## Rydym ni am sicrhau bod awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn talu am y gwasanaethau cymorth cywir.

Mae awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr Heddlu a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn rhedeg gwasanaethau, ond maen nhw hefyd yn talu busnesau, sefydliadau a grwpiau i redeg gwasanaethau ar eu cyfer. Comisiynu yw'r enw ar hyn. Mae'n bwysig ei fod yn werth da ac yn diwallu anghenion pobl yn eu hardal.

**Sut allwn ni gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau ar gomisiynu gwasanaethau?**

# Siarad am wybodaeth a sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau’n deg

## Rydym ni am sicrhau bod gan bobl wybodaeth am gymorth yn y gymuned.

Mae angen i wybodaeth am gymorth yn y gymuned fod yn glir, yn gyfoes ac ar gael i bawb. Mae hyn yn cynnwys ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, a lleoedd fel llyfrgelloedd neu ganolfannau ieuenctid.

Mae rhai cyfeiriaduron cenedlaethol ar-lein, ond nid ydyn nhw bob amser yn cynnwys gwybodaeth am gymorth lleol.

**Pa gyfeiriaduron neu ffynonellau gwybodaeth ar-lein ydych chi’n eu defnyddio?**

**Ydy’r wybodaeth ar-lein rydych chi’n gwybod amdani yn rhoi’r hyn rydych chi ei angen i chi er mwyn gwneud penderfyniadau am gymorth yn y gymuned?**



## Rydym ni am sicrhau bod grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau dan anfantais yn gallu cael cymorth yn y gymuned.

Ni ddylid unrhyw un gael ei ddal yn ôl na'i stopio am eu bod:

- ag anabledd
- yn fyddar neu'n drwm eu clyw
- yn ddall neu'n rhannol ddall
- ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg
- neu maen nhw'n wynebu rhwystrau eraill.

**Sut allwn ni sicrhau bod pawb yn gallu cael cymorth yn y gymuned?**

## Rydym ni am i bawb deimlo'n ddiogel yn defnyddio gwasanaethau.

Mae safonau eisoes ar gyfer gwasanaethau i gadw pobl yn ddiogel. Ond rydym ni'n ystyried datblygu safonau newydd ar gyfer y fframwaith hwn.

**A ddylem ni ddatblygu safonau diogelu newydd?**

## Rydym ni am sicrhau bod pobl yn gallu cael cymorth yn y gymuned ar-lein.

Fe wnaeth Covid-19 olygu bod llawer o gefnogaeth yn cael ei symud ar-lein. Ond roedd rhai pobl yn colli allan am nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd, technoleg na hyder. Roedd eraill yn ei chael hi'n anoddach ymgysylltu â hyn.

**Sut allwn ni helpu pobl i oresgyn rhwystrau i ddefnyddio technoleg?**



## Siarad am gynaliadwyedd

### Rydym ni am sicrhau bod cymorth yn y gymuned yn gallu helpu pobl nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen i wasanaethau cymorth fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae gennym ni arian ar gael i helpu i wneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Ond mae angen i ni weithio gyda'n gilydd, ar draws Cymru gyfan, i ddod â chyllid at ei gilydd.

**Sut allwn ni helpu awdurdodau lleol, sefydliadau a gwasanaethau i gydweithio i sicrhau cyllid hirdymor?**

### Rydym ni am sicrhau ein bod yn diogelu'r amgylchedd.


Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem wirioneddol. Gan fod angen cymorth ar fwy a mwy o bobl, bydd mwy o bwysau ar gymunedau. Mae hyn yn cynnwys pwysau ar eu ffyrdd, eu hadeiladau a'r amgylchedd naturiol.

**Beth allwn ni ei wneud i leihau'r effaith hon?**

### Rydym ni am gasglu tystiolaeth i weld sut mae presgripsiynu cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth fel y gallwn ni gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae gwledydd eraill wedi gweld presgripsiynu cymdeithasol yn gwella iechyd a lles. Bydd casglu gwybodaeth a chael adborth yn ein helpu i weld sut mae'n gweithio yng Nghymru.

**Sut y dylem ni fesur pa mor dda mae presgripsiynu cymdeithasol yn gweithio?**



## Rydym ni am sicrhau bod y gweithlu'n sefydlog, yn fedrus ac yn cefnogi pobl yn y ffyrdd cywir.

Mae llawer o weithwyr proffesiynol a staff sy'n darparu cymorth cymunedol o ansawdd uchel. Mae fframwaith sgiliau 'Unwaith i Gymru' yn cael ei ddatblygu. Bydd yn helpu gweithwyr proffesiynol, staff a gwirfoddolwyr i wella a datblygu eu sgiliau. Mae yna hefyd ffyrdd o rannu arfer da a dysgu oddi wrth y naill a'r llall.

**Beth arall y gallem ni ei wneud i wella sgiliau yng ngweithlu'r gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?**



## Rydym ni am wneud y defnydd gorau o dechnoleg.

Gall technoleg a llwyfannau ar-lein chwarae rhan fawr yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol a helpu pobl i gael cymorth. Mae'n bwysig bod pob technoleg:

- yn ddiogel ac yn dilyn safonau
- yn hawdd ei ddefnyddio
- yn helpu pobl i gael cymorth
- yn gallu datblygu a thyfu i'r dyfodol.

**Beth yw eich profiad o ddefnyddio technoleg:**

- **ar gyfer atgyfeiriad?**
- **ar gyfer asesiad?**
- **i gael cymorth yn y gymuned?**
- **wrth roi eich gwybodaeth?**
- **wrth roi adborth?**

**Sut allwn ni wella'r ffordd mae technoleg yn cael ei ddefnyddio?**

## Cwestiynau terfynol

**Ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyno Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

**Ydw** ◯ **Nac ydw** ◯ **Ddim yn gwybod** ◯

**Pa effeithiau allai fod yn eich barn chi? Sut allwn ni gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

**A oes unrhyw beth arall mae angen i ni feddwl amdano ar gyfer y fframwaith hwn?**

Anfonwch eich atebion i:

Is-adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

fframwaithcenedlaetholpresgripsiynucymdeithasol@llyw.cymru

Erbyn: 20 Hydref 2022

